Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr

**Bryntirion**
**Rhaeadr**
**Powys**
**LD6 5DE**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Ffrwd Ddeuol |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 203 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 177 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 20.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 18.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 8.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Ionawr 2008 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 28/01/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/10/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](https://fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Caiff yr ysgol ei harwain yn dda ac mae’r staff yn adnabod eu disgyblion, eu cefndiroedd a’r gymuned leol yn dda iawn. Maent yn hyrwyddo ethos gofalgar lle mae ffocws cryf ar wella lles disgyblion mewn ysgol lle ‘mae pawb yn bwysig’.

Mae arweinwyr a staff yn gweithio’n bwrpasol i wneud gwelliannau, fel cryfhau’r cymorth ar gyfer lles disgyblion ar ôl y pandemig ac wrth wneud cynnydd tuag at weithredu’r Cwricwlwm i Gymru. Wrth i staff wneud gwelliannau parhaus i’r ddarpariaeth ar gyfer dysgu’r disgyblion, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson o’u mannau cychwyn. Yn gyffredinol, mae medrau llythrennedd, rhifedd, digidol, creadigol a chorfforol disgyblion i gyd yn datblygu’n dda, er bod ychydig o agweddau yn gofyn am gryfhau’r ddarpariaeth ymhellach, fel cefnogi darllen, ysgrifennu a Chymraeg disgyblion.

Mae athrawon a staff yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad effeithiol ar gyfer disgyblion, ac yn aml yn creu gweithgareddau dysgu gwerth chweil a chyffrous, yn enwedig yn yr ardal ddysgu yn yr awyr agored. Yma, mae gweithgareddau cynlluniedig a phwrpasol yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau o ansawdd uchel ar gyfer bron pob un o’r disgyblion yn gyson, gan ddatblygu amrywiaeth o fedrau buddiol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw’r addysgu bob amser yn gyson o ran darparu her briodol i ddisgyblion wneud cymaint o gynnydd ag y bo modd. Mae athrawon yn darparu adborth priodol ar gyfer disgyblion, er nad yw hi bob amser yn glir pa feysydd o’r gwaith y mae angen eu gwella er mwyn iddynt feithrin eu medrau yn systematig.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llythrennedd disgyblion, yn enwedig eu medrau darllen ac ysgrifennu estynedig

A2 Cryfhau'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau disgyblion yn y Gymraeg o'u mannau cychwyn gwahanol

A3 Sicrhau bod yr addysgu'n darparu her briodol ar gyfer pob un o'r disgyblion, a bod adborth yn eu helpu i wella'u gwaith ymhellach

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Rydym wedi gofyn i'r ysgol ddarparu astudiaeth achos arfer orau ar ddefnyddio'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored i gefnogi dysgu a lles disgyblion.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn y ffrydiau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cyson o'u mannau cychwyn. Mae llawer ohonynt yn datblygu eu medrau i gyfathrebu'n gynyddol hyderus yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn datblygu medrau rhifedd a digidol cadarn.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i'w gilydd yn ystod trafodaethau yn yr ystafell ddosbarth. Maent yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau llafaredd yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwrando'n barchus ac yn briodol ar eu hathrawon ac ar ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn canolbwyntio ac yn gwrando'n bwrpasol tra'n cymryd rhan mewn datblygu eu medrau echddygol manwl trwy gerddoriaeth a symud. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae'r disgyblion hŷn yn ymateb yn llwyddiannus i amrywiaeth o symbyliadau mewn cyflwyniadau gwersi. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn disgrifio gwahanol agweddau ar eu diwrnod, eu hoffterau a'u casbethau. Ym Mlwyddyn 4, mae disgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth flaenorol am lythrennedd i ddisgrifio eu rysáit ar gyfer eu draig anwes yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn nosbarthiadau'r ffrwd cyfrwng Saesneg yn gwneud cynnydd effeithiol o ran datblygu eu medrau Cymraeg achlysurol, yn enwedig yn ystod eu sesiynau croeso yn y bore. Fodd bynnag, wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy'r ysgol, mae safon eu medrau siarad Cymraeg yn amrywiol ac yn llai datblygedig. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn caffael y Gymraeg yn briodol, er enghraifft wrth iddynt ail-ddweud stori tra'n dilyn strwythur penodol. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae'r mwyafrif ohonynt yn ymdrechu i siarad Cymraeg tra'n gwneud eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn ddigon cyson mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, ac mae hyn yn rhwystro eu hyder i siarad â rhuglder cynyddol.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion iau yn datblygu'n briodol, ar y cyfan, wrth iddynt gaffael gwybodaeth gadarn am ffoneg a sillafu geiriau allweddol. Fodd bynnag, wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy'r ysgol, mae safon eu darllen yn Gymraeg ac yn Saesneg yn amrywiol. Er enghraifft, mae lleiafrif o ddisgyblion yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn ei chael yn anodd darllen geiriau anghyfarwydd, ac nid ydynt yn adnabod pan maent wedi gwneud camgymeriadau sy'n effeithio ar ystyr y testun.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn briodol wrth iddynt fagu hyder i gofnodi eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion derbyn yn dechrau cofnodi eu syniadau trwy greu marciau a ffurfio llythrennau eglur. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu brawddegau syml yn gywir, ac yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir. Fodd bynnag, fel y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y ddwy ffrwd, nid yw eu medrau ysgrifennu wedi datblygu'n ddigonol,

ac nid yw'r disgyblion yn atgyfnerthu eu hysgrifennu yn annibynnol ac yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu’n briodol wrth iddynt symud trwy’r ysgol. Maent yn defnyddio TGCh i gefnogi eu dysgu mewn pynciau eraill yn rheolaidd. Mae llawer o’r disgyblion iau yn cael mynediad da at godau QR i fynd at eu gwaith testun. Mae bron pob un o’r disgyblion hŷn yn defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol yn fedrus i greu cofnod gweledol o atyniadau amlycaf yr ardal. Maent yn ychwanegu ffotograffau, pytiau sain a hyperddolenni yn hyderus ac yn effeithiol at wefannau eraill yn eu gwaith a’u cyflwyniadau.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau mathemategol wrth iddynt symud ymlaen trwy’r ysgol. Yn y dosbarth derbyn, mae disgyblion yn defnyddio medrau trin data syml ac yn casglu gwybodaeth mewn siartiau cyfrif wrth chwilio am wahanol fathau o blanhigion yn yr ardal awyr agored. Ym Mlwyddyn 2, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion adnabod y gwahaniaeth rhwng hanner a chwarter ac adnabod y rhain ar wahanol siapiau. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth flaenorol ynghylch dealltwriaeth o amser, fel hanner awr wedi a chwarter wedi, i gefnogi eu gwaith â ffracsiynau ymhellach. Trwy ddefnyddio offer ymarferol wrth iddynt chwarae, mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol, er enghraifft wrth benderfynu capasiti cynwysyddion llawn, hanner llawn a gwag. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o amrywiaeth addas o gysyniadau mathemategol. Er enghraifft, yn nosbarthiadau Blwyddyn 3, 4, 5 a 6 ar draws y ddwy ffrwd iaith, mae gan lawer ohonynt amgyffrediad cadarn o’r berthynas rhwng adio a thynnu, a gallant gyfrifo’r gwahaniaeth rhwng cyfansymiau yn hyderus. Mae’r disgyblion y rhoddir senarios bywyd go iawn iddynt, fel cyfrifo’r gwahaniaeth rhwng cost teganau mewn rhestr siopa, yn dangos eu bod yn galw eu dysgu i gof yn gryfach na’r rhai a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau tebyg heb gyd-destun ystyrlon. O roi’r cyfle iddynt, felly, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn atgyfnerthu eu medrau rhifedd yn briodol mewn meysydd eraill o’r cwricwlwm.

Mae medrau creadigol disgyblion yn datblygu’n dda ar draws yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau a medrau i gynhyrchu amrywiaeth o waith celf; er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn gwneud darluniau a phaentiadau trawiadol wedi’u seilio ar waith arlunydd lleol. Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn defnyddio dail ac adnoddau o dir yr ysgol i greu collages diddorol. Fe wnaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion elwa ar gymryd rhan ym mhrosiect creadigol ‘Cynefin’ a ganolbwyntiodd ar ardal Cwm Elan. Fel rhan o’r prosiect, creodd disgyblion ddawnsiau a chaneuon amlddiwylliannol i ddeall eu treftadaeth ymhellach, a materion fel pwysigrwydd gwrth-hiliaeth a meithrin goddefgarwch. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau creadigrwydd disgyblion, a’u mwynhad o’r awyr agored.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn elwa’n emosiynol ac yn gorfforol ar wersi sy’n cael eu darparu y tu mewn a’r tu allan i adeilad yr ysgol. Mae ardal helaeth yr ysgol goedwig yn darparu amgylchedd cyffrous lle mae pob un o’r disgyblion yn datblygu medrau trawsgwricwlaidd cadarn. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 a 4 yn paratoi ac yn coginio cawl o lysiau wedi’u tyfu ar y safle, ac mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 a 6 yn datblygu eu medrau technoleg yn greadigol trwy gerfio cymeriadau pren o adnoddau o’r ardal goedwig. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu ac adeiladu tîm yn fuddiol hefyd tra’n adeiladu

cuddfannau a llochesi. Maent yn mwynhau profiad bod yn yr awyr agored ac mae hyn yn hyrwyddo eu lles yn effeithiol.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Un o nodweddion cryf yr ysgol yw'r berthynas weithio gadarnhaol a gofalgar sy'n bodoli ymhlith disgyblion, a rhwng staff a disgyblion. Mae disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol. Maent yn foesgar a chwrtais ac yn rhyngweithio'n hyderus â'u cyfoedion ac oedolion, fel ei gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn gydweithredol a chymwynasgar, ac yn datblygu lefelau uchel o ymddiriedaeth a gwerthfawrogiad am athrawon a staff cymorth, ac maent yn aeddfed a meddylgar am eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn helpu ei gilydd i reoli eu teimladau trwy siarad a thrwy ddefnyddio strategaethau i ymdawelu ac ymlacio, fel gwrando ar gerddoriaeth neu dreulio amser gydag anifeiliaid. Maent yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac wrth symud o gwmpas yr adeilad, ac yn ystod amser egwyl. At ei gilydd, maent yn deall ac yn ymateb yn dda i weithdrefnau'r ysgol i annog ymddygiad cadarnhaol, ond o bryd i'w gilydd, mae ychydig o ddisgyblion yn rhoi'r gorau i ganolbwyntio ac nid ydynt yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn awyddus i fynd i'r ysgol ac yn mwynhau'r amrywiaeth eang o brofiadau dysgu a ddarperir ar eu cyfer. Maent yn deall eu rôl mewn gofalu am ei gilydd, er enghraifft bod wrth law i helpu ffrind sy'n teimlo'n ddigalon. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn dechrau'r diwrnod yn teimlo bod pobl yn eu deall a'u bod yn cael gofal oherwydd arferion sefydledig staff o ran eu croesawu i'r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn chwarae'n adeiladol â thoes, ac yn gwrando ar gerddoriaeth i leddfu eu cyfnod pontio i'r diwrnod ysgol.

Mae ychydig o ddisgyblion sydd â swyddi cyfrifol ar draws yr ysgol yn dangos balchder yn eu rolau ac yn cymryd eu dyletswyddau o ddifri. Mae pwyllgor llais y disgybl yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn rhannu ei syniadau a'i gamau gweithredu gyda disgyblion eraill. Mae aelodau o'r 'Criw Cymraeg' yn annog defnydd o'r Gymraeg o gwmpas yr ysgol, ac yn trefnu digwyddiadau codi arian yn llwyddiannus. Er enghraifft, ysgrifennodd disgyblion at seren bop o Gymru a threfnu cyngerdd yn yr ysgol i godi arian. Fodd bynnag, nid yw'r rôl sydd gan ddisgyblion mewn dylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau sy'n effeithio ar eu hiechyd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwerthfawrogi'r cyfle i gymryd rhan mewn ymarfer corff, er enghraifft wrth ddefnyddio'r ardaloedd chwarae helaeth yn ystod amseroedd egwyl ac yn ystod gweithgareddau'r ysgol goedwig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall y peryglon a allai godi yn eu bywydau bob dydd, ac yn gwybod pa gamau i'w cymryd i aros yn ddiogel yn eu cymuned. Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd aros yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn amlinellu'r peryglon a allai godi o ganlyniad i ddefnydd anaddas o'r rhyngrwyd.

O roi'r cyfle iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn briodol i adborth llafar gan staff a'u cyfoedion i wella'u gwaith a datblygu eu medrau ymhellach. Mae disgyblion yn dechrau ystyried pa mor dda y maent yn gwneud cynnydd â'u dysgu, ac o bryd i'w gilydd, i feddwl drostynt eu hunain pa gamau y dylent eu cymryd nesaf.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae staff yn gweithio'n fedrus i ddatblygu perthnasoedd gweithio cryf iawn gyda disgyblion. Maent yn annog disgyblion i fod yn barchus a chwrtais, sy'n arwain at yr ethos cefnogol sy'n treiddio trwy'r ysgol. Caiff disgyblion eu trin yn deg, ac mae eu hathrawon yn gwrando arnynt. Maent yn myfyrio'n feddylgar ar eu cyfrifoldebau tuag at bobl eraill. Er enghraifft, yn ystod gwersi, mae bron pob un o'r disgyblion yn caniatáu pobl eraill i rannu syniadau a dangos parch pan fydd barn pobl eraill yn wahanol i'w barn nhw eu hunain. Mae hyn yn sefydlu amgylchedd cynhwysol da ar gyfer dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu yn yr awyr agored yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r gweithgareddau cyfoethog cynlluniedig a phwrpasol yn yr ardal awyr agored yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau o ansawdd uchel ar gyfer bron pob un o'r disgyblion yn gyson. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r profiadau dysgu yn amrywiol ac yn ddiddorol, gan roi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ystod o fedrau tra byddant yn cael hwyl, er enghraifft trwy greu gemau synhwyraidd gan ddefnyddio'r amgylchedd naturiol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon a staff cymorth yn defnyddio technegau holi amrywiol i helpu disgyblion i ymestyn eu gwybodaeth a'u medrau, a'u galluogi i esbonio'u dealltwriaeth o'r dysgu. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i fagu hyder yn eu medrau siarad. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn esbonio cysyniadau newydd yn dda ac yn darparu arweiniad clir sy'n galluogi disgyblion i ymgymryd â'u gwaith yn briodol. Mae mwyafrif yr athrawon yn cynllunio'n ofalus ac yn teilwra gweithgareddau yn ystyriol i ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion ychydig o ddisgyblion i wneud cynnydd cryf. Er enghraifft, nid yw gweithgareddau datrys problemau ac ysgrifennu bob amser yn ddigon heriol.

Mae cyfleoedd i ddisgyblion asesu a myfyrio ar eu cynnydd eu hunain a chynnydd disgyblion eraill yn datblygu'n briodol. Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth defnyddiol wrth iddynt weithio, ac yn eu hannog i ymestyn a datblygu eu hymatebion ymhellach, i gael amcan o'u dealltwriaeth. Mae staff yn defnyddio adborth ar lafar yn bwrpasol i ganmol a dathlu llwyddiannau, ac yn aml i'w harwain at y camau nesaf yn eu dysgu yn ystod gwersi. Yn llyfrau gwaith disgyblion, mae athrawon hefyd yn rhoi adborth ar gywirdeb eu gwaith, ac ar ansawdd y cynnwys o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn helpu disgyblion i ddeall sut i wella'u gwaith ymhellach.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd cadarn tuag at weithredu cwricwlwm sy'n ymgorffori egwyddorion a diwylliant y Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr a staff wedi gweithio gyda disgyblion, rhieni a llywodraethwyr i ffurfio gweledigaeth a dylunio a datblygu cwricwlwm sy'n berthnasol i gymuned Rhaeadr. Rhoddir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ar draws yr ysgol osod y themâu dysgu yn eu dosbarthiadau. Mae'r ysgol yn croesawu ymwelwyr ac yn trefnu ymweliadau addysgol yn effeithiol i gyfoethogi ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion o agweddau pwysig ar eu dysgu. Er enghraifft, cymeron nhw ran mewn prosiect 'Cynefin', a oedd yn cynnwys ymchwilio i waddol gweithwyr mudol a'u teuluoedd a symudodd i ardal Rhaeadr i adeiladu Argae Elan. Mae hyn yn cyfoethogi gwybodaeth disgyblion am eu hanes a'r ardal leol, a'u dealltwriaeth ohono.

Caiff disgyblion gyfleoedd priodol i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft trwy astudio'r ardal leol a pherfformio mewn Eisteddfod flynyddol, a threfnu gŵyl cerddoriaeth Gymreig. Ar draws yr ysgol, mae staff yn atgyfnerthu a datblygu dealltwriaeth disgyblion a'r defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol o'u mannau cychwyn amrywiol yn ystod sesiynau anffurfiol. Yn y ffrwd cyfrwng Saesneg, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddarllen testunau syml gyda staff ac ysgrifennu yn Gymraeg, gyda chymorth. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae disgwyliadau staff a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol yn anghyson ac yn amrywio o ran ansawdd. Er enghraifft, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a defnyddio eu medrau llafaredd Cymraeg yn y dosbarth a'r tu hwnt. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion yn galw ymadroddion a brawddegau sylfaenol i gof yn dda ac nid ydynt yn siarad yn ddigon hyderus. Nid yw'r ddarpariaeth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg, ac yn y ffrwd cyfrwng Saesneg, yn gyffredinol, wedi'i datblygu'n ddigonol, yn enwedig ar gyfer disgyblion hŷn.

Mae adroddiadau i rieni yn glir a llawn gwybodaeth, gan roi gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd a medrau cymdeithasol eu plentyn, ynghyd â thargedau gwella ar gyfer y dyfodol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae staff yn adnabod eu disgyblion, eu cefndiroedd a'r gymuned leol yn dda iawn. Maent yn cyfrannu'n bwrpasol at hyrwyddo ethos gofalgar lle mae ffocws cryf ar wella lles disgyblion.

Mae arweinwyr a staff yn rhoi blaenoriaeth uchel i brif egwyddor yr ysgol, sef 'mae pawb yn bwysig'. Caiff yr ethos hwn ei atgyfnerthu'n gyson gyda disgyblion trwy bob agwedd ar fywyd ysgol, er enghraifft trwy sesiynau 'gwirio' rheolaidd lle gwahoddir disgyblion i roi gwybod i staff sut maen nhw'n teimlo. Mae ardaloedd penodol o'r ysgol sy'n hyrwyddo cyfleoedd i ddisgyblion siarad ag aelodau staff unigol a rhannu eu teimladau. Er enghraifft, mae staff yn darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr ar les emosiynol i ddisgyblion yn y 'Nyth Fach'. Caiff yr adnodd anogaeth gwerthfawr hwn ar gyfer disgyblion bregus ei oruchwylio gan y rheolwr bugeiliol, ac mewn cyfnod cymharol fyr, mae wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar les disgyblion. Ceir strwythur a dilyniant clir ar gyfer disgyblion sy'n eu galluogi i integreiddio'n llawn â'u cyfoedion, yn ogystal â chael y cymorth a'r gofal sydd eu hangen arnynt bob dydd.

Mae'r gwasanaethau ysgol gyfan yn darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu dealltwriaeth foesol ac ysbrydol disgyblion. Atgyfnerthir hyn gan drafodaethau ystafell ddosbarth yn y bore lle mae'r ysgol wedi datblygu ymagweddau penodol at sicrhau bod yr holl ddisgyblion wedi ymdawelu ac yn barod i ymgysylltu'n effeithiol. Dros gyfnod, mae'r ysgol yn cynnig nifer o weithgareddau i ddatblygu medrau addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Trwy ymweliadau a chyflwyniadau gan arbenigwyr yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o faterion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau ac effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae staff yn annog disgyblion i ymgysylltu â'r celfyddydau creadigol yn llwyddiannus trwy eu gweithgareddau dysgu yn yr ystafelloedd dosbarth y tu mewn a'r tu allan, a thrwy ymweliadau addysgol. Mae'r côr yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion hyrwyddo

eu medrau Cymraeg trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o berfformiadau yn y gymuned. Caiff treftadaeth Gymreig ei hyrwyddo'n gadarnhaol trwy ymweliadau lleol a chenedlaethol.

Mae arweinwyr wedi sicrhau bod gweithdrefnau cadarn i nodi anghenion ychwanegol disgyblion a monitro effaith ymyriadau rheolaidd yn drylwyr. Caiff disgyblion ag ADY eu nodi a'u cynorthwyo'n gyflym, a chynigir darpariaeth deilwredig i ddiwallu eu hanghenion unigol yn yr ystafell ddosbarth ac mewn grwpiau cymorth. Mae staff yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o asiantaethau allanol i fynd i'r afael ag anghenion y disgyblion a'r rhieni, er enghraifft trwy 'baned a sgwrs' yn y gymuned i annog trafodaeth am ddyslecsia a chyflyrau awtistiaeth, er enghraifft.

Mae'r ysgol yn darparu llawer o gyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion fod yn egnïol yn ystod y diwrnod ysgol a gwneud dewisiadau iach am ffordd o fyw. O ganlyniad, mae disgyblion yn bwyta byrbrydau iach ac yn cymryd rhan yn y filltir ddyddiol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni trwy lythyrau a chyfarfodydd i sicrhau lefelau presenoldeb priodol.

Mae staff yn sicrhau bod lles a diogelwch disgyblion yn rhan annatod o fywyd yr ysgol, a rhoddir lle blaenllaw i hyn yn eu cyfrifoldebau dyddiol. O ganlyniad, mae'r diwylliant diogelu yn gadarn, ac mae pob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cyfrannu at ddiogelwch a lles disgyblion. Mae arweinwyr yn rhoi ffocws priodol ar werthuso trylwyredd eu gweithdrefnau diogelu yn rheolaidd, ac yn ystyried yn ofalus pa agweddau y gellid eu gwella hyd yn oed ymhellach.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn allweddol o ran creu a chynnal cymuned groesawgar a chynhwysol, gyda lles disgyblion yn ganolog iddi. Mae arweinwyr a staff yn meddu ar ddealltwriaeth gref o anghenion y disgyblion a'r gymuned leol. Maent yn gweithio'n angerddol a gydag ymroddiad i ddiwallu'r anghenion hyn. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gymuned ddysgu fywiog. Mae'r diwylliant gofalgar a chefnogol yn sicrhau bod gan ddisgyblion ymdeimlad cadarn o berthyn, ac yn datblygu'r hyder a'r medrau i ymgymryd yn gadarnhaol â phrofiadau dysgu. Mynegir hyn yn dda yn arwyddair yr ysgol, sef 'mae pawb yn bwysig'.

Daw corff llywodraethol yr ysgol ag amrywiaeth eang o fedrau ac arbenigedd perthnasol i'w rolau. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac ar y cyd â thîm arweinyddiaeth yr ysgol, maent yn cyfrannu'n dda at gyfeiriad strategol yr ysgol a'i blaenoriaethau i'w gwella ymhellach. Mae llywodraethwyr yn dwyn yr ysgol i gyfrif, yn herio perfformiad ac yn darparu cymorth pan fydd angen.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro'r gyllideb yn ofalus ac yn dyrannu adnoddau i fynd i'r afael â'u blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun datblygu ysgol. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd priodol o adnoddau a grantiau i gefnogi grwpiau o ddisgyblion, fel y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn defnyddio'i chyllid grant datblygu disgyblion yn effeithiol i sicrhau cymorth gwerth chweil ar gyfer disgyblion dan anfantais. Un o gryfderau nodedig y modd y mae'r ysgol yn defnyddio'i hadnoddau yw'r ffordd y mae'r ardaloedd dysgu yn yr awyr agored wedi cael eu datblygu'n llwyddiannus i greu amgylchedd dysgu cyffrous ar

gyfer disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at gryfhau ymgysylltiad disgyblion â'u dysgu, a chaiff ei ddefnyddio'n dda gan ymarferwyr i ddarparu gweithgareddau dysgu o ansawdd uchel yn yr amgylchedd awyr agored.

Mae gan lywodraethwyr werthfawrogiad addas o'r gofynion i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant yn yr ysgol o gasglu ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol i helpu nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. O ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod eu hysgol yn dda, yn enwedig y pennaeth. Fel arfer, mae'r wybodaeth y bydd arweinwyr yn ei chasglu o hunanwerthuso yn llywio eu cynllunio gwelliant yn dda, ac mae ganddynt hanes da o greu a chyflawni yn unol â blaenoriaethau a nodwyd. Fodd bynnag, yn sgil pandemig COVID-19, lleihawyd swm ac amrywiad y dulliau hunanwerthuso a ddefnyddiodd arweinwyr yn ystod y cyfnod, fel oedi arsylwadau addysgu a dysgu a lleihau'r cyfleoedd ar gyfer teithiau dysgu. O ganlyniad, mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth lai cadarn o'r amrywiad mewn addysgu nag y byddent wedi fel arfer. Maent yn ymwybodol o'r angen i ailddechrau'r rhain i gael gwerthfawrogiad gwell o ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ffocws priodol ar ddarparu dysgu proffesiynol perthnasol i staff sydd wedi'i gysylltu'n addas â blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. O ganlyniad, caiff y rhan fwyaf o staff gyfleoedd i gryfhau eu gwybodaeth a'u harfer broffesiynol, er enghraifft i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae hyn, er enghraifft, yn cyfrannu'n dda at arfer ystafell ddosbarth ac at gynorthwyo grwpiau o ddisgyblion, fel hyfforddiant penodol i gryfhau'r cymorth ar gyfer disgyblion â'r cyflwr awtistiaeth. Mae'r rhan fwyaf o staff yn cymryd rhan yn effeithiol mewn profiadau dysgu proffesiynol, arfarnu a rheoli perfformiad. Mae lleiafrif o gynorthwywyr addysgu yn dweud y byddent yn elwa ar fwy o gyfleoedd ar gyfer datblygu a thrafodaethau am eu perfformiad a'r mentrau ehangach a ddatblygir yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn dda, gan gynnwys diwygio ADY ac adfer ar ôl y pandemig. Mae cynnydd gwerth chweil mewn dylunio'r cwricwlwm wedi galluogi'r ysgol i wneud cynnydd cadarn wrth iddi ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mae gwaith yr ysgol i wella ansawdd medrau Cymraeg disgyblion ar draws yr ysgol yn llai datblygedig.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/12/2022